



Gorchmynion dyled trydydd parti a gorchmynion arwystlo

Sut mae gwneud cais am orchymyn?

Sut mae ymateb i orchymyn?

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i gredydwyr dyfarniad sy'n ceisio adennill arian drwy Orchymyn Dyled Trydydd Parti neu Orchymyn Arwystlo (tudalennau 2-10) a dyledwyr dyfarniad y mae Gorchymyn Dyled Trydydd Parti neu Orchymyn Arwystlo Interim (tudalennau 8-12) wedi'u cyflwyno iddynt.

Sut mae gwneud cais am orchymyn?

Cyn gwneud cais am orchymyn

Cyn darllen y daflen hon, dylech fod wedi darllen y daflen **EX321 - Rwyf wedi cael dyfarniad ond nid yw'r diffynnydd wedi talu - Beth ddylwn i ei wneud?** Mae'n esbonio:

- beth sydd ar gael i'ch helpu i gael eich arian (sef 'gorfodi eich dyfarniad'); a
- pha rai o'r dulliau gorfodi sydd ar gael sy'n debygol o fod fwyaf llwyddiannus mewn gwahanol amgylchiadau.

Cofiwch, pwrpas y daflen hon yw rhoi syniad cyffredinol i chi am y prosesau dan sylw (Gorchmynion Dyled Trydydd Parti a Gorchmynion Arwystlo). Does dim modd iddi esbonio popeth am reolau a gweithdrefnau'r llys. Os bydd mater cyfreithiol yn codi, rhaid i chi ofyn am help gan asiantaeth gynghori, canolfan gyfraith neu gyfreithiwr.

Os byddwch chi'n derbyn unrhyw daliadau gan y dyledwr yn ystod achos gorfodi, rhaid i chi roi gwybod i'r llys ar unwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os gwneir taliad cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer gwrandawriad.

Beth yw Gorchymyn Dyled Trydydd Parti?

Mae'n orchymyn o'r llys sy'n rhewi'r arian a ddelir gan unigolyn neu sefydliad, megis banc neu gymdeithas adeiladu, a fyddai fel arall yn talu'r dyledwr yn erbyn yr rhain sydd gan

ddyfarniad. Gelwir y sefydliad neu'r unigolyn sy'n dal yr arian yn 'trydydd parti'. Bydd gorchymyn dyled trydydd parti'n atal y dyledwr rhag cael gafael ar yr arian nes bod y llys yn penderfynu a ddylid talu'r arian i chi ai peidio. Yn yr achosion hyn, gelwir y person sydd mewn dyled i chi yn 'ddyledwr', ac fe'ch gelwir chi yn 'gredydwr'.

Rhaid i'r arian a ddelir gan y trydydd parti fod yn cael ei ddal i'r dyledwr yn unig. Er enghraifft, ni chewch wneud cais am orchymyn dyled trydydd parti yn erbyn cyfrif banc ar y cyd oni bai fod dyled y dyfarniad yn ddyledus gan holl ddeiliaid y cyfrif.

Pa bryd gaf i wneud cais am Orchymyn Dyled Trydydd Parti?

Gallwch wneud cais am orchymyn unrhyw bryd ar ôl i chi gael dyfarniad. Fodd bynnag, ni fydd y barnwr sy'n ystyried eich cais yn gwneud gorchymyn oni bai fod y dyledwr:

- wedi methu â thalu swm y dyfarniad pan oedd yn ddyledus; neu
- wedi methu â thalu un neu fwy o'r rhandaliadau sy'n ddyledus dan delerau'r dyfarniad.

Dylech ystyried yn ofalus pa bryd i wneud eich cais. Dim ond arian sydd mewn cyfrif ar y diwrnod y bydd y trydydd parti'n derbyn y gorchymyn (y diwrnod cyflwyno) a gaiff ei 'rewi' gan y gorchymyn llys a anfonir, i ddechrau, at y trydydd parti. Felly, er enghraifft, os derbynnir y gorchymyn ychydig o ddiwrnodau cyn y telir cyflog y dyledwr i mewn i'r cyfrif, mae'n debygol na fyddwch yn cael llawer neu ddim o gwbl. Mae hyn oherwydd na weithredir y 'rhewi' ar unrhyw arian a delir i mewn i'r cyfrif ar ôl derbyn y gorchymyn llys.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i gyflwyno cais am orchymyn?

Rhaid i chi lenwi ffurflen N349 (Cais am orchymyn dyled trydydd parti). Cewch gopi o'r ffurflen ar hmctsformfinder.justice.gov.uk. Os yw eich hawliad yn hawliad am arian yn unig Rhan 7 sydd wedi ei gychwyn yn y Ganolfan Fusnes Llys Sirol (CCBC) neu yng Nghanolfan Hawlio Arian y Llys Sirol, mae'n rhaid i chi wneud eich cais i'r llys sy'n delio ag ardal cartref y diffynnydd. Cewch hyn ar-lein yn courttribunalfinder.service.gov.uk.

Pa wybodaeth fydd ei hangen arna'i i lenwi ffurflen N349?

Bydd angen i chi nodi:

- enw a chyfeiriad y dyledwr;
- cyfanswm y dyfarniad, y swm sy'n dal i fod yn ddyledus, gan gynnwys unrhyw gostau a llog, ac, os oedd y dyfarniad yn daladwy fesul rhandaliad - beth yw cyfanswm y rhandaliadau sy'n ddyledus;
- enw a chyfeiriad y trydydd parti, rhaid i'r chyfeiriad fod yng Nghymru neu Loegr;

Os mai banc neu gymdeithas adeiladu yw'r trydydd parti, rhaid i chi roi enw a chyfeiriad ei Brif Swyddfa. Os ydych chi'n eu adnabod, dylech chi hefyd roi enw'r gangen lle cedwir y cyfrif, cyfeiriad y gangen, cod didoli'r banc, os yw hynny'n berthnasol, a rhif cyfrif y dyledwr.

- ydych chi'n gwybod ai peidio a oes unrhyw un arall sydd â buddiant yn yr un arian (gan roi manylion os oes), ac
- ydych chi wedi gwneud unrhyw geisiadau eraill ai peidio am orchmynion dyled trydydd parti mewn perthynas â'r un dyfarniad.

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad gwirionedd. Bydd rhaid i chi ei llofnodi i gadarnhau bod y ffeithiau a nodir yn eich cais yn wir. Cofiwch efallai y dygir achos o ddirmyg llys yn eich erbyn os byddwch yn llofnodi datganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

A fydd rhaid i mi dalu ffi ar gyfer y cais?

Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi'r llys. Mae'r daflen **EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu** ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Gallwch dalu'r ffi gyda siec neu archeb bost.

Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM'.

Efallai bydd eich sefyllfa ariannol olygu nad oes rhaid i chi dalu ffi. Gall llyfryn **EX160A - Sut i wneud cais am gymorth gyda ffioedd'** roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn. Cewch gopi ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Bydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am bob ffi y byddech fel arall angen ei dalu.

Beth fydd y llys yn ei wneud gyda fy nghais?

Bydd staff y llys yn cychwyn eich cais ac yn ei gyfeirio at farnwr. Os yw'r barnwr yn fodlon ar yr wybodaeth a roesoch, bydd yn gwneud gorchymyn dyled trydydd parti interim Bydd y gorchymyn yn Ffurflen N84 (Gorchymyn dyled interim trydydd parti). Anfonir copi atoch chi ac at y trydydd parti drwy wasanaeth post dosbarth cyntaf.

Ni fydd copi'n cael ei anfon at y dyledwr tan saith niwrnod ar ôl iddo gael ei anfon at y trydydd parti. Diben hyn yw sicrhau bod y trydydd parti yn 'rhewi' yr arian cyn i'r dyledwr fod yn ymwybodol o'r gorchymyn.

Os hoffech i'r gorchymyn dyled trydydd parti gyrraedd y derbynnydd ar ddyddiad penodol, gallwch ei gyflwyno eich hunan. Rhaid ffeilio'r ffurflen N215 tystysgrif cyflwyno o leiaf dau ddiwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad neu ddod â thystysgrif cyflwyno gyda chi i'r gwrandawriad.

Bydd y gorchymyn yn cynnwys dyddiad gwrandawriad pan fydd y barnwr yn penderfynu a ddylai'r arian a gafodd ei rewi gael ei dalu i chi. Rhaid i chi ddod i'r gwrandawriad hwnnw, neu fe all y barnwr wrthod eich cais.

Os nad yw'r barnwr yn fodlon ar yr wybodaeth a roesoch yn eich cais, bydd y llys yn rhoi gwybod i chi.

Beth mae'r trydydd parti yn ei wneud pan fyddant yn derbyn ffurflen N84 (Gorchymyn dyled interim trydydd parti)?

Os nad yw'r trydydd parti'n fanc neu'n gymdeithas adeiladu, rhaid i'r trydydd parti roi gwybod i chi a'r llys o fewn saith niwrnod ar ôl derbyn y gorchymyn dros dro os:

- ydy'r trydydd parti'n honni nad oes arno arian o gwbl i ddyledwr; neu
- ydy'r trydydd parti'n honni bod arno lai o arian i ddyledwr na'r swm a hawlir yn y gorchymyn interim.

Os yw'r trydydd parti'n honni nad oes arno arian i'r dyledwr a'ch bod am ddadlau yn erbyn hyn, rhaid i chi ffeilio eich tystiolaeth ysgrifenedig gyda'r llys o leiaf tri diwrnod cyn y gwrandawriad. Ar yr un pryd, rhaid i chi anfon copi at y trydydd parti ac at y dyledwr. Dylai eich tystiolaeth fod ar ffurf datganiad tyst. Bydd staff y llys yn gallu dweud wrthy'ch pa eiriau mae'n rhaid i chi eu defnyddio i ddilysu'r hyn a ysgrifennoch chi yn eich datganiad.

Os banc neu gymdeithas adeiladu yw'r trydydd parti - rhaid i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu, o fewn saith niwrnod ar ôl derbyn y gorchymyn interim, chwilio i ganfod pob cyfrif a ddelir yn enw'r dyledwr a dim ond yn ei enw ef/hi. Ar bob cyfrif a ganfyddir, rhaid iddynt ddweud wrthy'ch chi a'r llys:

- beth yw rhif y cyfrif;
- a yw'r cyfrif mewn credyd, ac, os ydyw,
- a yw'r swm sy'n weddill yn y cyfrif(on) yn ddigon i dalu'r swm a hawlir yn y gorchymyn interim; ac
- os nad yw'r swm yn ddigon, faint oedd yn y cyfrif pan gyflwynwyd y gorchymyn interim; ac
- a oes gan y banc neu'r gymdeithas adeiladu yr hawl i gadw peth o'r arian sydd yn y cyfrif i wneud iawn am ddyledion neu symiau eraill.

Bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu'n codi tâl am wneud y chwiliad. Bydd y tâl yn cael ei dynnu o unrhyw arian sydd yn gredyd gan y dyledwr.

Beth fydd yn digwydd os bydd y dyledwr neu'r trydydd parti'n gwrthwynebu fy nghais am orchymyn dyled trydydd parti terfynol?

Rhaid iddynt ffeilio'u tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi eu gwrthwynebiadau o leiaf 3 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad. Rhaid iddynt anfon copïau atoch chi ac at ei gilydd. Os ydynt wedi gwrthwynebu, bydd y barnwr yn disgwyl iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawriad.

Dylech gofio y caiff y trydydd parti a'r dyledwr wneud cais i'r llys am gynnal y gwrandawriad mewn llys sy'n nes at eu cartref neu eu busnes. Os byddant yn gwneud cais, bydd y llys yn rhoi gwybod i chi.

All y dyledwr wneud unrhyw beth arall i fy rhwystro rhag cael fy arian?

Os unigolyn yw'r dyledwr, hynny yw, os nad yw'n ffyrm, yn gwmni neu'n gorfforaeth, a bod y trydydd parti'n fanc neu'n gymdeithas adeiladu, gall wneud cais am orchymyn taliad caledi.

Beth yw gorchymyn taliad caledi?

Gorchymyn a wneir gan farnwr yw hwn. Mae'n dweud wrth y trydydd parti am ryddhau peth o'r arian a gafodd ei rewi o ganlyniad i'r gorchymyn dyled interim trydydd parti i'r dyledwr neu ryw unigolyn arall a enwir. Bydd y gorchymyn yn Ffurflen N37 (gorchymyn taliad caledi).

Dim ond os gall dyledwr y dyfarniad brofi bod dyledwr a theulu dyledwr yn methu â thalu costau byw beunyddiol o ganlyniad i'r ffaith fod arian yn cael ei rewi, y bydd y barnwr yn gwneud y math hwn o orchymyn.

Gall y dyledwr wneud cais yn unrhyw lys. Nid oes rhaid iddo fod yr un llys lle gwnaethpwyd eich cais am orchymyn dyled trydydd parti. Os gwneir cais, bydd barnwr yn penderfynu sut ac phryd y cewch wybod amdano. Er enghraifft, efallai y bydd y llys yn ceisio'ch ffonio chi, neu'n anfon e-bost atoch chi, oherwydd, o safbwynt y dyledwr, bydd y sefyllfa'n fater o frys. Efallai y bydd gorchymyn taliad caledi'n caniatáu rhyddhau swm unigol o arian, ond gallai ganiatáu rhyddhau symiau penodol dros gyfnod o wythnosau nes cynhelir y gwrandawriad.

Beth fydd yn digwydd yn y gwrandawriad pan fydd y barnwr yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn terfynol?

Bydd y barnwr yn ystyried eich cais ac unrhyw dystiolaeth arall yr ydych chi, y trydydd parti, neu'r dyledwr wedi'i ffeilio. Os yw'r barnwr yn fodlon y dylid gwneud gorchymyn terfynol, gwneir y gorchymyn yn Ffurflen N85 (Gorchymyn dyled trydydd parti terfynol). Os oes digon o arian, bydd y gorchymyn terfynol yn caniatáu'r trydydd parti i dalu dyled

y dyfarniad a chostau i chi, a'ch costau am wneud y cais. Os yw'r gorchymyn terfynol am swm llai, bydd costau gwneud y cais yn cael ei dalu gyntaf a bydd rhan o ddyled y dyfarniad yn dal yn weddill.

Anfonir copi o'r gorchymyn atoch chi, at y trydydd parti ac at y dyledwr.

Dywedir wrth y trydydd parti faint i'w dalu i chi ac erbyn pa bryd i'w dalu. Cofiwch na all y llys orchymyn i'r trydydd parti dalu swm i chi sy'n fwy na'r swm a gafodd ei rewi yn y lle cyntaf. Os yw hyn yn llai na'r hyn sy'n ddyledus i chi, yna efallai y byddwch chi am ystyried trefniadau gorfodi eraill i adfer y gweddill.

Beth yw Gorchymyn Arwystlo?

Mae'n orchymyn y llys sy'n rhoi 'arwystl' ar eiddo'r dyledwr, megis tŷ neu darn o dir. Yr arwystl fydd y swm sy'n ddyledus i chi. Fel arfer, ni fyddwch yn cael eich arian yn syth drwy orchymyn arwystlo, ond fe all ddiogelu eich arian ar gyfer y dyfodol.

Os yw'r dyledwr yn berchen ar stociau a chyfrannau, neu sydd â chronfa neu arian yn y llys, gall y Llys roi arwystl ar yr rhain yn yr un modd ac ar eiddo.

Sut mae'n gwneud hynny?

Mae arwystl ar eiddo'n golygu os gwerthir yr eiddo, yna rhaid talu'r arwystl gyntaf fel arfer, cyn y gellir rhoi unrhyw elw o'r gwerthiant i'r dyledwr. Sylwch, fodd bynnag, na fydd gorchymyn arwystlo yn gorfodi'r dyledwr i werthu'r eiddo.

Os bydd arwystl eisoes ar yr eiddo pan gofrestrir eich arwystl chi, er enghraifft morgais, telir yr arwystlon hyn gyntaf.

Pryd gaf i wneud cais am orchymyn arwystlo?

Gallwch wneud cais unrhyw bryd ar ôl i chi gael dyfarniad. Fodd bynnag, ni fydd y barnwr sy'n ystyried eich cais yn gwneud gorchymyn oni bai fod y dyledwr:

- wedi methu â thalu swm y dyfarniad pan oedd yn ddyledus; neu
- os yw rhandaliadau yn cael eu talu dan delerau'r dyfarniad, gallwch barhau i wneud cais am orchymyn arwystlo er na fu diffyg yn y taliad. Fodd bynnag, bydd y barnwr sy'n ystyried eich cais yn edrych ar y ffaith nad oes diffyg i benderfynu gwneud gorchymyn neu beidio.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i gyflwyno cais am orchymyn arwystlo?

Rhaid i chi lenwi ffurflen N379 (Cais am orchymyn arwystlo ar dir neu eiddo). Cewch gopi ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk. Bydd arnoch angen cyflwyno copi swyddogol o'r cofnod (cofnodion) Cofrestr Tir ar gyfer y teitl (teitlau). I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry>

Os ydych chi'n gwneud cais am orchymyn arwystlo yn erbyn stociau a chyfranddaliadau, neu am arian yn y llys, rhaid i chi lenwi Ffurflen N380 (Cais am orchymyn arwystlo ar warannau)

Pa wybodaeth fydd ei hangen arna'i i lenwi'r ffurflen gais?

Bydd arnoch angen:

- manylion y dyfarniad, sef pa bryd y'i gwnaethpwyd, ym mha lys, a beth oedd rhif yr hawliad;
- enw llawn a chyfeiriad y dyledwr;
- cyfanswm y dyfarniad, gan gynnwys unrhyw gostau a llog; y swm sy'n ddyledus ar adeg codi eich cais, eto gan gynnwys unrhyw log, a chyfanswm unrhyw randaliadau, os oes rhai, nas talwyd;
- cyfeiriad yr eiddo neu'r tir yr ydych am osod arwystl arno;
- gwybodaeth ynghylch a yw dyledwr yn berchen ar yr eiddo ar ei ben ei hun neu gyda rhywun arall, a thystiolaeth i'w brofi;
- manylion unrhyw gredydwy'r eraill a wyddoch sydd gan ddyledwr, hynny yw, eu henwau a chyfeiriadau a natur eu dyled;
- manylion unrhyw un arall sydd â buddiannau yn yr eiddo;
- manylion unrhyw resymau eraill, ar wahân i'r ffaith fod yr arian yn ddyledus ichi, yr hoffech i'r llys ystyried wrth benderfynu pa un ai i ganiatáu'r cais ai peidio; a,
- manylion ffynonellau gwybodaeth, hynny yw, pwy o fewn y sefydliad a roddodd yr wybodaeth angenrheidiol. Ond dim ond os mai cwmni, corfforaeth neu ffym ydych chi.

Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad gwirionedd. Bydd rhaid i chi ei llofnodi i gadarnhau bod y ffeithiau a nodir yn eich cais yn wir. Cofiwch efallai y dygir achos o ddirmyg llys yn eich erbyn os byddwch yn llofnodi'r datganiad heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Fydd rhaid i mi dalu ffi?

Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi'r llys. Mae'r daflen EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Gallwch dalu'r ffi gyda siec neu archeb bost. Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM'.

Efallai bydd eich sefyllfa ariannol olygu nad oes rhaid i chi dalu ffi. Gall llyfryn 'EX160A – Sut i wneud cais am gymorth gyda ffioedd' roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn. Cewch gopi ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Bydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am bob ffi y byddech fel arall angen ei dalu.

Os na allwch chi fforddio'r ffi, gweler yr wybodaeth ynghylch hyn ar dudalen 3.

Beth ddylwn i ei wneud â'r ffurflen?

O'r 6 Ebrill 2016 ymlaen, dylech anfon y ffurflen wedi'i llenwi a'r ffi i'r Uned Ganolog yn y cyfeiriad isod.

County Court Money Claims Centre

(CCMCC)

PO Box 527

Salford

M5 0BY

Sut mae cael y dystiolaeth am yr eiddo a pherchnogaeth?

Mae rhai tiroedd neu eiddo, ond nid pob un wedi'u cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM. Os yw'r tir neu eiddo wedi'i gofrestru, dylech gael copi o'r cofnod a'i atodi â'ch cais.

Gellir cael gwybodaeth am y gweithdrefnau a'r ffioedd a godir gan y Gofrestrfa Tir drwy ffonio eu Llinell Gymorth Cyffredinol Rhif ffôn 020 7917 8888 neu ewch ar eu gwefan www.landregistry.gov.uk.

Gorchymyn arwystlo?

Bydd CCMCC yn Salford yn prosesu pob cais am Orchymyn Arwystlo a wneir i'r Llys Sirol, gan eithrio pan fo'r cais am orchymyn arwystlo dros fuddiant mewn cronfa yn y llys. Mae'n rhaid gwneud y ceisiadau hyn i'r Ganolfan wrandawiaidau'r llys lle gwnaethpwyd gorchymyn y dyfarniad.

Pan fo'r cais am orchymyn arwystlo am fudd dyledwr am dir, gan ystyried y cais, gan gynnwys gwneud gorchymyn arwystlo interim gan swyddog llys ar wahân i'r achosion canlynol:

- (a) cais dan adran 2(1)(b)(i) o Ddeddf 1979.
- (b) cais am orchymyn arwystlo am fuddiant partner mewn eiddo partneriaeth dan adran 23 Deddf Partneriaeth 1980.

(c) lle gwnaethpwyd gorchymyn rhandaliadau cyn 1 Hydref 2012

(d) lle mae swyddog y llys yn ystyried yn wahanol y dylai farnwr ddelio â'r cais.

Bydd y newid i'r rheol i gefnogi canoli yn caniatáu i swyddog y llys wneud Gorchymyn Interim drwy 'hysbysiad oni bai'. Hynny yw, bydd y gorchymyn yn cynnwys oni bai bod dyledwr y dyfarniad yn gwrthwynebu gwneud gorchymyn arwystlo terfynol (o fewn 28 diwrnod o gyflwyno gorchymyn arwystlo interim), yna bydd y Llys yn parhau i ystyried gwneud gorchymyn arwystlo terfynol (yn dilyn dyledwr y dyfarniad yn ffeilio tystiolaeth o gyflwyno ynghyd â thystiolaeth o ddyled cyson). Bydd y gorchymyn arwystlo terfynol yn cael ei wneud gan y Barnwr Rhanbarth neu'r Ddirprwy Farnwr Rhanbarth.

Os yw dyledwr y dyfarniad yn gwrthwynebu gwneud gorchymyn arwystlo terfynol, yna bydd y cais am orchymyn arwystlo yn cael ei anfon yn awtomatig i Lys lleol dyledwr y dyfarniad i'w restru gerbron Barnwr Rhanbarth neu Ddirprwy Farnwr Rhanbarth

A ddylwn i wneud rhywbeth pan fyddaf yn derbyn gorchymyn arwystlo interim?

Dylech. Er mwyn sicrhau bod yr arwystl yn dod i rym ar unwaith, rhaid i chi ei gofrestru. Gallwch gael gwybod sut mae gwneud hyn drwy ffonio Llinell Ymholiadau Cyffredinol y Gofrestrfa Tir. Ni all staff y llys roi cyngor i chi am y drefn hon, na gwneud y gwaith cofrestru ar eich rhan.

Beth fydd yn digwydd os bydd y dyledwr yn gwrthwynebu gwneud gorchymyn arwystlo terfynol?

Os yw'r dyledwr (neu unrhyw un arall a gyflwynwyd y gorchymyn arwystlo interim arnynt) yn dymuno gwrthwynebu gwneud gorchymyn terfynol, rhaid i'r unigolyn hwnnw ffeilio tystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyno copi ichi ddim llai na saith niwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad.

Dylech gofio y gall y dyledwr wneud cais i'r llys am gynnal y gwrandawriad mewn llys sy'n nes at ei gartref neu ei fusnes.

Beth fydd yn digwydd yn y gwrandawriad pan fydd y barnwr yn penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn terfynol ai peidio?

Bydd y barnwr yn ystyried eich cais ac unrhyw dystiolaeth arall y mae'r dyledwr neu unrhyw unigolyn arall a gyflwynwyd gyda'ch cais wedi'i ffeilio. Os codwyd unrhyw wrthwynebiadau, gall y barnwr ymdrin â hynny yn y fan a'r lle, neu roi cyfarwyddiadau ar gyfer gwrandawriad yn ddiweddarach. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthy ch beth mae'n rhaid i chi ei wneud i baratoi ar gyfer y gwrandawriad hwnnw. Os yw'r barnwr yn teimlo y gellir cyfiawnhau'r gwrthwynebiadau, mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod. Os bydd

hynny'n digwydd, efallai na fyddwch chi'n gallu adfer y ffi a dalwyd gennych i gychwyn y cais, ac efallai y bydd rhaid i chi dalu costau'r parti a gododd y gwrthwynebiadau.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd unrhyw ffioedd yr ydych yn ei dalu yn adferadwy gan y dyledwyr, drwy ei gynnwys ar y dyfarniad. Gwneir gorchymyn ar Ffurflen N87 (Gorchymyn arwystlo terfynol). Anfonir copi atoch chi ac unrhyw barti arall.

Oes rhaid i mi gysylltu â'r Gofrestrfa Tir ar ôl y gwrandawriad?

Oes. Rhaid i'r Gofrestrfa Tir (neu'r Gofrestrfa Pridiannau Tir) gael gwybod bod gorchymyn arwystlo terfynol wedi'i wneud. Rhaid i chi hefyd gysylltu â nhw os bydd eich cais yn cael ei wrthod er mwyn sicrhau bod y gorchymyn arwystlo dros dro'n cael ei ddileu o'r gofrestr.

Sut mae ymateb i orchymyn?

Rwyf wedi cael Gorchymyn Dyled Trydydd Parti - beth yw Gorchymyn Dyled Trydydd Parti?

Dyma orchymyn a wneir gan y llys sy'n rhewi unrhyw arian sy'n cael ei ddal gan sefydliad megis banc neu gymdeithas adeiladu ar eich rhan.

Pam rwyf wedi cael y gorchymyn hwn?

Rydych wedi cael y gorchymyn dyled trydydd parti hwn am fod yr hawlydd/credydwr wedi dweud wrth y llys eich bod:

- wedi methu â thalu swm y dyfarniad pan oedd yn ddyledus; neu
- wedi methu â thalu un neu fwy o'r rhandaliadau sy'n ddyledus dan delerau'r dyfarniad.

Sut bydd y gorchymyn dyled trydydd parti yn effeithio arnaf i?

Bydd y gorchymyn yn atal y dyledwr rhag cael gafael ar yr arian yn y banc neu gymdeithas adeiladu nes bod y llys yn penderfynu a ddylid talu'r arian i'r credydwr ai peidio.

Alla' i wrthwynebu'r gorchymyn?

Rhaid iddynt ffeilio'u tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi eu gwrthwynebiadau o leiaf dri diwrnod cyn cynnal y gwrandawriad. Rhaid i chi anfon copïau i'r llys ac at y credydwr. Disgwylir i chi hefyd i fod yn bresennol yn y gwrandawriad.

Rwyf angen arian nawr - beth alla'i wneud?

Gallwch wneud cais am daliad caledi. Gwneir gorchymyn dim ond os gallwch brofi eich bod chi a'ch teulu yn dioddef caledi ac yn methu â thalu costau byw beunyddiol.

Os yw'r achos yn digwydd mewn Llys Sirol, gallwch wneud cais mewn unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol. Os yw'r achos wedi'i gychwyn yn yr Uchel Lys, gallwch wneud cais yn y Llysoedd Barn Brenhinol neu unrhyw gofrestrfa ddsbarth.

Gall y barnwr wneud gorchymyn sy'n dweud wrth y trydydd parti (banc neu gymdeithas adeiladu) am ryddhau peth o'r arian.

Fydd rhaid i mi dalu ffi?

Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi i'r llys. Mae'r daflen **EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu** ar gael ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Gallwch dalu'r ffi gyda siec neu archeb bost. Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM'.

Fe all eich sefyllfa ariannol olygu nad oes rhaid i chi dalu ffi. Gall llyfryn '**EX160A - Sut i wneud cais am gymorth gyda ffioedd**' roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn. Gallwch lawr lwytho copi o hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Bydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am bob ffi y byddech fel arall angen ei dalu.

Beth sy'n digwydd yn awr?

Bydd y barnwr yn ystyried achos y credydwr yn y gwrandawriad ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall y byddwch chi neu'r credydwr wedi'i ffeilio. Os yw'r barnwr yn fodlon y dylid gwneud gorchymyn terfynol, bydd y llys yn llunio'r gorchymyn. Os dyfarnir costau i'r credydwr, gall y gorchymyn terfynol ganiatáu i drydydd parti (banc neu gymdeithas adeiladu) i dalu'r credydwr o'r arian a gedwir.

Rwyf wedi cael gorchymyn arwystlo interim - beth yw hwn?

Dyma orchymyn gan y llys sy'n gosod 'arwystl' ar eich eiddo. Yr arwystl fydd y swm yr ydych chi mewn dyled i'r credydwr.

Pam rwyf wedi cael y gorchymyn hwn?

Rydych wedi derbyn y gorchymyn arwystlo interim am fod yr hawlydd/credydwr wedi dweud wrth y llys eich bod:

- wedi methu â thalu swm y dyfarniad pan oedd yn ddyledus; neu
- yn talu rhandaliadau dan delerau'r dyfarniad (efallai bydd y llys yn ystyried y ffaith nad oes diffyg talu wedi bod).

Sut bydd y gorchymyn arwystlo interim yn effeithio arnaf?

Mae arwystl ar eich eiddo'n golygu os gwerthir yr eiddo, yna rhaid talu'r arwystl gyntaf felarfer, cyn y gellir rhoi unrhyw elw o'r gwerthiant ichi. Sylwch, fodd bynnag, na fydd gorchymyn arwystlo yn eich gorfodi i werthu'r eiddo.

Alla' i wrthwynebu'r gorchymyn?

Rhaid iddynt ffeilio'u tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi eu gwrthwynebiadau o leiaf saith niwrnod cyn cynnal y gwrandawriad. Rhaid i chi anfon copïau i'r llys ac at y credydwr. Disgwylir i chi hefyd i fod yn bresennol yn y gwrandawriad.

Beth sy'n digwydd yn awr?

Bydd y barnwr yn ystyried achos y credydwr yn y gwrandawriad ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall y byddwch chi neu'r credydwr wedi'i ffeilio. Os yw'r barnwr yn fodlon y dylid gwneud gorchymyn terfynol, bydd y llys yn llunio'r gorchymyn.

All rhywun gymryd fy nghartref oddi arnaf?

Mewn rhai achosion lle gwneir gorchymyn arwystlo terfynol, gall y credydwr wneud cais i'r llys i'ch gorfodi chi i werthu'ch eiddo. Gelwir hyn yn 'orchymyn gwerthu'. Os gwneir cais, yna rhoddir y cyfle ichi ddod i wrandawriad cyn y gwneir gorchymyn.

Os oes gennych anabledd sy'n golygu y byddai cyfathrebu neu fynd i'r llys yn anodd a / neu os oes arnoch angen gwybodaeth mewn fformat arall, mewn print bras er enghraifft, cysylltwch â'r llys dan sylw a byddant yn gallu eich helpu. Mae manylion cyswllt ar gyfer ein llysoedd i gyd ar gael ar-lein yn hmctsfinder.justice.gov.uk